

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau a Phwllheli.

Beth fyddai'n ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i:

- Ddysgu sut mae gweithio'n ddiogel ac effeithiol mewn maes peirianeg trwy baratoi at sefyllfa waith;
- Ddysgu defnyddio ac egluro gwybodaeth dechnegol;
- Ddysgu sut i ddefnyddio meddalwedd Dylunio ar Gyfrifiadur (CAD) i wneud darluniau mecanyddol;
- Ddeall sut i stripio a gwneud gwaith cynnal a chadw ar injans morwrol; [Pwllheli yn unig]
- Sut i ddefnyddio llen fetel i wneud cynnyrch;
- Ddefnyddio offer llaw i gynhyrchu darnau gyda nodweddion gwahanol. [Dolgellau yn unig]

Sut fyddai'n dysgu?

Byddi'n cael dy ddysgu gan ddarlithwyr peirianeg profiadol. Bydd 75% o'r cwrs yn cael ei ddysgu drwy weithgareddau ymarferol. Bydd y 25% arall yn cael ei ddysgu yn y dosbarth.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Cei dy asesu'n barhaus drwy'r flwyddyn ar ddarnau bach o waith sgrifennu neu lafar ac asesiadau ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, os byddi wedi gorffen y cwrs hwn yn llwyddiannus, gelli fynd yn dy flaen i astudio cwrs Lefel 3 mewn maes perthnasol, neu gelli ddal ati i orffen neu astudio mwy o unedau ar Lefel 2. Ar ôl hynny, mi fyddi di'n barod i weithio mewn swydd addas o dan oruchwyliaeth, lle gelli ddal i hyfforddi ar gynllun Prentisiaeth Fodern Lefel 3, neu fynd ymlaen i astudio mewn addysg uwch.

Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda pheirianeg, mi allet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Bydd dy gynghorydd gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

Syniadau am swyddi.

- Technegydd Peirianeg Mecanyddol
- Technegydd Peirianeg Morwrol
- Peiriannydd cynhyrchu
- Peiriannydd Cynnal a Chadw

Am fwy o wybodaeth?

I wybod mwy am y cwrs hwn, dos i'r wefan yma:

http://www.eal.org.uk/shared_content_folder/qualification_search.aspx neu cysyllta gyda: www.careerswales.com

Peirianeg (NVQ Lefel 2 Diploma - Perfformio Gweithrediadau Peirianeg)